

Casglu Eich Hun: Gwybodaeth angenrheidiol i gael marc 5* (rhan 2)



Mae ambell i ffasiwn fel 'Gwener y Gwario' a 'Llun Prynu Ar-lein' yn croesi'r lwerydd ac yn ymwreiddio yng nghalendr gwledydd Prydain. Mae Calan Gaeaf yn enghraifft sydd bellach wedi goddiweddyd Gŵyl San Ffolant i fod y drydedd ŵyl fwyaf ar ôl y Nadolig a'r Pasg, gan esgor ar y ffasiwn 'Parc Pwmpenni' sy'n dechrau ennill ei phlwyf. Ond beth sydd angen i dyfwrwr sy'n rheoli ffermydd 'Casglu eich hun' ei wybod? Dyma'r ail yn ein cyfres o gynghorion i'r diwydiant. Yn y rhifyn hwn edrychwn ar sut y gall strategaeth farchnata ar-lein effeithiol wneud byd o wahaniaeth, pwysigrwydd cynnal eich cnydau a sut i sicrhau presenoldeb mawr trwy adolygiadau ar-lein.

Beth ddysgwyd yn y rhifyn diwethaf?

Yn rhan gyntaf y daflen ffeithiau hon, edrychwyd ar y modd y mae'r farchnad yn newid i fentrau casglu eich hun, gan archwilio'r rhesymau sy'n gyrru galw cwsmeriaid. O dwf y cyfryngau cymdeithasol, i ymwybyddiaeth prynwyr o faterion cynaliadwyedd, galw am dryloywder yn y gadwyn gyflenwi a'r duedd gynyddol tuag at wario mwy ar 'brofiadau' yn hytrach na nwyddau.

Mewn erthygl ddiweddar i'r BBC, dyma oedd gan Claudia Lenza o Lanfihangel Crucornau i'w ddweud:



“Gall mentrau casglu-eich-hun wneud yn wirioneddol dda. Mae’n gwsmer gwahanol bellach. Gynt, pobl oedd eisiau llenwi eu rhewgell fyddai’n dod. Erbyn hyn, ceir teuluoedd â phlant ifanc sy’n edrych am ddiwrnod braf allan.”

Ategwyd hyn gan Gary Rees o Fferm Brooksgrove a ddywedodd, “Pobl yn llenwi whilberi â nwyddau neu ferched yn gwneud jam oedd y cwsmeriaid gynt. Erbyn hyn, teuluoedd yn dod am brofiad ydyn nhw”.

Dyma’r pwyntiau dysgu allweddol a nodwyd yn rhan un:

- Os ydych yn ystyried, neu wrthi yn sefydlu busnes Casglu Eich Hun, gofalwch wneud eich ymchwil a gwrando ar gyngor. Ac os oes gennych atyniad Casglu Eich Hun yn barod, daliwch i ddysgu ac i wella’r hyn sydd gennych i’w gynneg.
- Profiad y cwsmeriaid ddylai fod yn flaenaf yn eich meddwl. Meddyliwch am y daith rydych am fynd â’ch cwsmeriaid arni: beth hoffech chi iddyn nhw ei wneud, a beth hoffech chi iddyn nhw ei brynu? Defnyddiwch arwyddion, llwybrau a byrddau arddangos i arwain llif y cwsmeriaid.
- Meddyliwch am yr ychwanegolion – beth arall allwch chi ei gynneg? Caffi, o bosib, yn cynneg bwydydd a diodydd lleol? Eitemau ychwanegol i’w prynu fel citiau gwneud jam? Cymerwch amser i feddwl am beth allai eich cwsmeriaid ei ddewis, a gwnewch hi’n hawdd iddynt ei brynu.

Fel yr amlygwyd yn rhan un hefyd, mae angen i fentrau Casglu Eich Hun ystyried y profiad ac nid y nwyddau yn unig – **rydych yn cystadlu ag atyniadau fel Alton Towers yn hytrach na’r archfarchnad.**

Felly, mae marchnata a chreu perthynas gyda’r cwsmeriaid yn allweddol i lwyddiant eich menter Casglu Eich Hun. Mae hanner cyntaf y daflen ffeithiau hon yn canolbwyntio ar wneud y gorau o farchnata ar-lein a’r cyfryngau cymdeithasol.

Ond dim ond hanner yr her yw denu pobl i mewn drwy’r drws. Gyda’r cynnydd mewn safleoedd adolygu ar-lein fel Google a TripAdvisor mae’n haws nag erioed i gwsmeriaid anfodlon rannu eu cwynion gyda chyd-gwsmeriaid.



Mae 90% o ddefnyddwyr yn dweud eu bod yn edrych ar adolygiadau ar-lein cyn penderfynu ymweld â busnes, a dywed 88% o ddefnyddwyr eu bod yn ymddiried llawn gymaint mewn adolygiadau ar-lein ag mewn argymhellion personol. Felly, gallech redeg yr ymgyrch farchnata orau yn y byd, ond os nad yw profiad y cwsmer go iawn yn ateb y disgwyliadau, fydd gan eich cwsmeriaid ddim ofn dweud hynny, a hynny ar goedd, gan danseilio'ch gwaith caled. Yn ail hanner y daflen ffeithiau hon rhoddir ambell gyngor technegol gwerthfawr i sicrhau y cewch chi farc 5*.

Rhan 1: Manteisio ar farchnata ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol

Mae marchnata ar-lein yn arf hanfodol i fusnes Casglu Eich Hun: mae'n caniatáu i gwsmeriaid ddod o hyd ichi'n gyflym ac yn rhwydd ac yn caniatáu i chi gyfathrebu'n uniongyrchol â nhw i ddarparu cyfoeth o wybodaeth am eich busnes. Mae marchnata ar-lein yn arbennig o bwysig i fenter sy'n "atyniad", ond mae sawl neges greiddiol sy'n berthnasol i bob menter Casglu Eich Hun, ac fe'u trafodir isod.

Yn ogystal â rhoi gwybodaeth i gwsmeriaid newydd, gall y cyfryngau cymdeithasol roi llwyfan gwyh i rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau sydd i ddod. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig i dyfwyr pwmpenni sy'n cynnal digwyddiadau o gwmpas Calan Gaeaf.

I fusnesau sy'n canolbwyntio mwy ar dyfu cynnyrch, gall y cyfryngau cymdeithasol ganiatáu ichi gyhoeddi statws cyfredol y cynydau sydd ar gael, gan annog eich cwsmeriaid i ymweld â'ch safle pan fydd y cynnyrch ar gael. Bydd datblygu eich presenoldeb ar-lein yn gofyn am amser ac egni, ond gall gael effaith gadarnhaol iawn ar eich busnes!

Eich Gwefan

Gwefan yw sylfaen eich presenoldeb ar-lein – dyma'r peth cyntaf a wêl cwsmeriaid, mae'n debyg, wrth chwilio ar-lein, a'r lle cyntaf yr ânt iddo wrth chwilio am wybodaeth i'w helpu i gynllunio ymweliad â'ch busnes. Os nad oes gennych y sgiliau i ddatblygu gwefan eich hun, bydd datblygwr annibynnol yn gallu cynhyrchu gwefan blatfform (e.e. WordPress) y gallwch ei diweddarau a'i haddasu'n hawdd yn rheolaidd.



Bydd datblygwr yn gallu'ch cynorthwyo gyda'ch brandio hefyd, a all gael ei ymgorffori yn y wefan i gynhyrchu gwefan ddifyr a hwylus i arddangos y gorau o'ch busnes. Yn sicr, mae'n werth ystyried buddsoddi yn hyn os ydych am ddatblygu eich busnes Casglu Eich Hun. Dylai'ch gwefan gynnwys pob gwybodaeth y bydd cwsmer newydd yn chwilio amdani wrth gynllunio ymweliad, a hynny dan dabiau dewislen hawdd eu canfod, a dylai gynnwys digonedd o luniau i arddangos elfennau gorau eich busnes. Dyma rai pynciau cyffredin y dylid eu cynnwys:

Tab	Cynnwys
Hafan	Yma dylid rhoi cyflwyniad cryno i'ch busnes, gan nodi eich pwyntiau gwerthu unigryw i ddenu ymwelwyr i'ch safle. Gall y newyddion diweddaraf ac amserau agor cyfredol fod yn help i gwsmeriaid ddechrau cynllunio'u hymweliad.
Calendr Cnydau	Dyma wybodaeth hanfodol i gwsmeriaid gael amseru'u hymweliad, yn enwedig os ydych yn tyfu amrediad o gnydau a fydd yn cyrraedd aeddfedrwydd ar wahanol adegau yn y tymor.
Amdanom	Rhowch wybodaeth yma am eich busnes a'i hanes, gan gynnwys digon o luniau (hen a newydd) i ddangos eich safle a helpu siapio disgwyliadau eich ymwelwyr. Gall rhestr o gyfleusterau helpu ymwelwyr i gynllunio ymlaen hefyd.
Manylion ymarferol	Rhowch grynodedd byr o fanylion ymarferol eich busnes. Os oes isafswm gwariant neu bris tocyn mynediad nodwch hynny yma. Gall yr adran hon hefyd gynnwys awgrymiadau (e.e. beth i'w wisgo ar y traed) neu reolau i ymwelwyr â'ch safle (e.e. hawliau picnic, cŵn).
Ein Lleoliad	Cyfeiriad, cyfeiriad ebost a rhif ffôn, gyda chyfarwyddiadau i bobl sy'n teithio o gyffyrdd allweddol ar draffyrdd, neu o drefi/dinasoedd ac ati. Gellid cynnwys rhaglennig Google Maps gyda'r lleoliad wedi'i blotio arni.

Gellid cynnwys nodweddion eraill fel calendr digwyddiadau i ddod (e.e. barbeciw haf, gŵyl ffrwythau, Calan Gaeaf), cyfle i gofrestru i dderbyn cylchlythyr neu wybodaeth am eich cnydau, rysetiau neu oriel luniau ynghyd â dolenni i'ch cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Mae'n hawdd rheoli'r wybodaeth ar eich gwefan (yn wahanol i



gyfryngau cymdeithasol) felly dyma lle dylech roi craidd eich gwybodaeth, gyda'ch holl negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol yn arwain yn ôl at y wefan “am wybodaeth bellach”.

Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod y wybodaeth ar eich gwefan yn gyfredol, a darparu cynnwys newydd pryd y gallwch. Os ydych yn cael cwestiynau tebyg gan gwsmeriaid ar y ffôn neu mewn ebost mae hynny'n awgrymu naill ai nad yw'r pwnc hwnnw'n cael sylw ar eich gwefan neu ei fod yn rhy anodd dod o hyd iddo, felly dylech ei ddiweddarau. Mae'n llwyfan ardderchog hefyd i helpu teilwra disgwyliadau cwsmeriaid am yr hyn y cânt ei brofi yn ystod eu hymweliad.

Cyfryngau Cymdeithasol

Gall y cyfryngau cymdeithasol fod yn arf grymus i gyrraedd cwsmeriaid newydd a hen, a gallant ganiatáu ichi roi'r newyddion diweddaraf am ffrwythau sy'n aeddfedu, digwyddiadau newydd neu unrhyw ddeunydd hyrwyddo eich busnes. Mae cyfryngau cymdeithasol yn arbennig o bwysig i fusnesau “atyniad” lle gallwch hysbysebu'r elfennau ychwanegol sy'n gwneud eich busnes yn ddeniadol.

Mae pob sianel cyfrwng cymdeithasol fymryn yn wahanol, ond mae dwy reol euraidd: yn gyntaf, dylech bob amser osod y post o amgylch rhyw luniau neu fideo er mwyn tynnu sylw ac i annog pobl i rannu eich neges. Yn ail, dylech bob amser gynnwys dolen yn ôl i'ch gwefan ac osgoi rhoi manylion neu wybodaeth benodol – fel hyn gallwch reoli'r wybodaeth a sicrhau bob amser ei bod yn gyfredol ac yn gywir. Mae negeseuon gyda diddordeb ychwanegol bob amser yn syniad da (e.e. gweithgareddau newydd, rysetiau arbennig yn y caffi, anifeiliaid ar y fferm neu gwsmeriaid yn cael amser da).

Mae rhai llwyfannau fel Facebook yn rhoi adborth am ddemograffeg eich dilynwyr. Trwy edrych ar hyn ynghyd â'r derbyniad a gaiff eich negeseuon a'r modd y cânt eu rhannu, gallwch siapio eich presenoldeb ar y cyfrwng i fod yn fwy cydnaws ag anghenion eich cwsmeriaid.

Twitter 	Mae Twitter yn caniatáu ichi gysylltu â nifer fawr o bobl, a darlledu eich neges dros ardal eang iawn, er y gall fod yn hawdd iawn i'ch neges gael ei gwanhau a'i cholli yn ffrydiau eich dilynwyd. Mae'n well postio bob diwrnod neu ddau, ond gan mai negeseuon cryno ydynt wnaiff hyn ddim cymryd llawer o amser. Gellir ei ddefnyddio hefyd i gysylltu â ffrydiau eraill fel grwpiau lleol, digwyddiadau, neu nwyddau sydd ar werth yn siop y fferm.
Instagram 	Gall fod yn anoddach rhannu storïau a dolenni am eich busnes ar Instagram, ond gall fod yn ffordd hawdd i adeiladu portffolio o luniau sy'n dangos y gorau o'ch busnes, yn ogystal â helpu siapiau disgwyliadau cwsmeriaid cyn eu hymweliad. Ceisiwch annog defnyddwyr i rannu lluniau drwy redeg cystadlaethau ar thema arbennig â negeseuon sy'n tagio eich busnes.
Facebook 	Facebook fydd un o'ch prif sianeli marchnata, mae'n debyg, ac mae'n arbennig o ddefnyddiol ar gyfer cyfathrebu â rhieni teuluoedd ifanc sy'n chwilio am ddiwrnod allan. Fel Twitter, mae'n syniad da postio bob deuddydd neu dri gyda stori newydd a llun o'ch safle. Fel Twitter hefyd, mae'n hawdd iawn i'ch neges gael ei gwanhau a dylech gynllunio'ch negeseuon i gael effaith fawr o fewn yr awr gyntaf i'w postio – mae postio'n gynnar gyda'r nos, dydd Sul i ddydd Mawrth, yn aml yn dda ar gyfer taro anterth y diddordeb, gan ddal pobl gartref ond yn gynnar yn yr wythnos, heb gynllun ar gyfer y penwythnos nesaf. Gallwch ddisgwyl i unrhyw neges gyrraedd dim ond rhyw 25% neu lai o'ch dilynwyd, ond gallwch dalu ffi fechan i wneud i negeseuon gyrraedd cyfrannau mwy o'ch dilynwyd. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi sefydlu tudalen busnes, ac nid un preifat, ar Facebook. Rhowch y wybodaeth berthnasol i gyd, fel amserau agor, cyfarwyddiadau, ac ati. Sicrhewch hefyd eich bod yn cadw llygad ar negeseuon sy'n gofyn am wybodaeth a'ch bod yn ateb yn brydlon. Bydd Facebook yn cyhoeddi cyfartaledd amser ymateb ar eich tudalen, felly gorau po gyntaf yr ymatebwch.



Cyfathrebu â Dilynwyr

Gall cyfryngau cymdeithasol weithio fel sianel ddwy ffordd ac mae hyn yn gallu lledaenu eich neges gan y bydd sylwadau cwsmeriaid yn cael eu gwasgaru i'w dilynwyr hwythau. Gall cwsmeriaid chwilio am gyfleon tynnu llun ar eich safle (yn enwedig gyda phwmpenni) cyn uwchlwytho'r lluniau ar gyfryngau cymdeithasol. Bydd ymgysylltu â hynny trwy aildrydar eu neges, er enghraifft, yn rhoi cyhoeddusrwydd am ddim ichi. Yn anffodus mae risg o adborth negyddol bob amser (yn enwedig ar wefannau adolygu fel Trip Advisor), ond mae'n werth delio â hyn yn ofalus. Os mai cwyn syml ydyw, gall fod yn well ei hanwybyddu gan y bydd unrhyw ymateb yn hyrwyddo'r neges, gan roi mwy o gyhoeddusrwydd iddi, ond os yw'n broblem fwy a chithau'n teimlo bod angen delio â hi, gall estyn allan i'r cwsmer gael effaith gadarnhaol.

Cylchlythyron

Ffordd arall, ychydig yn wahanol, o gyfathrebu yw cylchlythyr. Anfonir hwn at bobl sydd wedi cofrestru (naill ai'n bersonol neu drwy'r wefan) felly mae eich neges yn llawer mwy tebygol o gyrraedd ei nod nag ar gyfryngau cymdeithasol. Dylech anelu at anfon ebost yn llawer llai aml (unwaith neu ddwy waith y mis ar y mwyaf). Gallai hyn fod y ffordd orau i hysbysebu digwyddiadau penodol lle dymunwch, drwy dargedu grŵp craidd o'ch cwsmeriaid yn uniongyrchol, yn enwedig ar fyr rybudd – er enghraifft, gellir trefnu gŵyl ffrwythau gyda gostyngiadau arbennig ar gynnyrch os oes gennych ormodedd o ffrwythau'n dod trwodd. Gallech annog pobl i gofrestru gyda chystadlaethau neu brisiau rhatach i gwsmeriaid sydd ar y rhestr ebostio.

Rhan 2: Cynghorion gwerthfawr ar gyfer cynnal eich atyniad

Unwaith y bydd eich strategaeth farchnata wedi llwyddo i ddenu cwsmeriaid i mewn trwy'r drws, bydd angen ichi sicrhau yr atebir eu disgwyliadau a mwy. Gall adolygiadau ar-lein hybu neu ddifetha eich strategaeth farchnata. Bydd adolygiadau da'n annog ymwelwyr newydd, ond bydd adolygiadau negyddol yn tanseilio'ch ymdrechion marchnata.



Tra bydd nifer o ffactorau'n cyfrannu at brofiad eich cwsmeriaid yn y pen draw, fel cyfleusterau, arwyddion, glendid, staff ac yn y blaen, mae'n hollbwysig fod eich cnydau ar eu gorau. Dyma rai cynghorion technegol gwych gan ADAS ar gyfer cynnal eich cnydau:

- Archwiliwch blanhigion yn rheolaidd i ganfod unrhyw ffrwythau sydd wedi pydru neu nychu, a'u tynnu yn syth – nid yn unig am eu bod yn edrych yn hyll i'ch cwsmeriaid, ond am y byddant yn annog datblygiad afiechyd pellach a safleoedd i bryfed ffrwythau adain brych (*drosophila suzukii*) ddodwy wyau.
- Gall ychydig o ofal helpu planhigion i ddatblygu, yn enwedig planhigion ifanc sydd newydd ymsefydlu. Gall tynnu'r blodau cyntaf un ar blanhigion bach iawn annog eu twf. Dylid tynnu ymledyddion pan welir nhw drwy gydol y tymor i annog y planhigyn i roi ei egni i flodeuo a ffrwytho.
- Gwiriwch y dargludedd trydanol yn ddyddiol (neu o leiaf dair gwaith yr wythnos) a gwnewch siŵr ei fod o fewn yr ystod gorau sef 1.6 – 2.2 EC. Gall dargludedd godi'n sydyn mewn tywydd poeth, felly gwyliwch am hyn a lleihau'r mewnbwn porthiant os oes angen. Cofiwch ei gynyddu eto pan fydd y tywydd yn oeri!
- Gwiriwch am thripsod blodau'r Gorllewin yn eich cnwd – tarwch y blodau'n ysgafn dros ddalen wen o bapur ac edrych am bryfed bach brown â streipen dywyll tuag 1mm o hyd. Dylech geisio sefydlu poblogaethau o'r gwiddon ysglyfaethus *Amblyseius cucumeris* (<https://www.biolineagrosciences.com/products/amblyline/>) i gadw'r rhain dan reolaeth.
- Gosodwch drapiau i bryfed ffrwythau adain brych o gwmpas eich cnydau. Gall trapiau fel y 'Droso Trap' (<https://www.biobestgroup.com/en/biobest/products/monitoring-and-scouting-4464/pheromone-traps-4494/droso-trap-4708/>) fod yn ddefnyddiol ar gyfer monitro a rheoli, ond bydd angen edrych ynddynt bob dydd i weld a ddaliwyd y pla. Cofiwch gadw lefel yr hylif i fyny, neu gall y trap gael ei ddefnyddio fel safle dodwy wyau. Mae gan yr AHDB wybodaeth am y pla hwn a sut i'w reoli yma: <https://horticulture.ahdb.org.uk/swd>



- Mae tywydd poeth wedi glaw yn debygol o arwain at leithder uchel, a gall greu amodau perffaith i ddatblygiad clefyd ffwngaid (e.e. llwydni blodiog a phydredd) felly cadwch eich twneli'n agored ac wedi'u hawyru'n dda i hyrwyddo symudiad yr awel.
- Mae gwiddon gwinwydd yn dechrau ymddangos o'r pridd a chyfryngau tyfu a gellir eu gweld yn fwy niferus – un arwydd eu bod yno yw gweld rhicio ar ddail fel tystiolaeth o'u gweithgaredd. Gellir rheoli larfâu gwiddon y gwinwydd sy'n ymosod ar wreiddiau'r planhigion yn effeithiol trwy reolaeth nematod (er enghraifft Nemasys H - <https://www.agricentre.basf.co.uk/en/Products/Overview/Nemasys%C2%AE-H.html>) wedi'i roi drwy'r diferwyr neu drwy drochi'r gwraidd.
- Am gyngor ar reoli plâu a chlefydau, a chynhyrchu cynydau'n gyffredinol, dylech fynd at ymgynghorydd arbenigol (gall Tyfu Cymru dalu am hyn).

Mae'n werth nodi nad rhywbeth i'w ofni yw adolygiadau ar-lein. Mae adolygiadau cadarnhaol yn werth y byd. Anogwch ymwelwyr i adael adborth ar Google, TripAdvisor a Facebook. Gallwch wneud hyn drwy arddangos arwyddion ar y safle, rhoi cyfarwyddiadau ar daflenni neu bostio ar y cyfryngau cymdeithasol. Cofiwch fwrw golwg yn rheolaidd ar yr adborth, ac ymateb i sylwadau, boed negyddol neu gadarnhaol.

Mae ymchwil* wedi dangos y gall ymatebion rheolwyr ddylanwadu ar y modd y bydd darpar gwsmeriaid yn gweld eich busnes (*er mai canolbwyntio'n benodol ar adolygiadau gwestyau roedd yr ymchwil hwn, gallwn ddysgu oddi wrtho hefyd ar gyfer sefydliadau sy'n cynnig profiadau). Dywed 87% o ddefnyddwyr fod ymateb priodol gan reolwyr i adolygiad gwael yn rhoi argraff well, dywed 70% fod ymateb amddiffynnol/ymosodol gan reolwyr i adolygiad gwael yn gwneud iddynt fod yn llai tebygol o drefnu ymweliad, a dywed 62% fod gweld ymatebion gan reolwyr i adolygiadau'n gyffredinol yn gwneud iddynt fod yn fwy tebygol o drefnu ymweliad, o gymharu â diffyg ymateb o gwbl.

Wrth ymateb i sylwadau, cofiwch fod yn gwrtais a phroffesiynol bob amser, gan gydnabod eu teimladau a'u hadborth a rhoi sylw i unrhyw faterion penodol heb fynd yn amddiffynnol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cymryd camau i weithredu ar unrhyw sylwadau adeiladol er mwyn gwneud gwelliannau i'ch busnes.



Diolchwch i ddefnyddwyr am sylwadau cadarnhaol a hyrwyddwch nhw yn eich deunydd marchnata, dyfynnwch nhw ar eich gwefan a defnyddiwch nhw mewn negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol i gael mwy o gyhoeddusrwydd.

Beth rydyn ni wedi'i ddysgu?

- Sicrhewch eich bod yn defnyddio'ch presenoldeb ar-lein i reoli disgwyliadau cwsmeriaid am yr hyn y cânt ei brofi yn ystod eu hymweliad. Defnyddiwch yr offer sydd ar gael i ddarparu gwybodaeth gyflym a rhwydd, h.y. sut i gyrraedd y safle, prisiau, argaeledd cynydau.
- Mae strategaeth farchnata effeithiol yn allweddol i fusnes Casglu Eich Hun: mae'n caniatáu i gwsmeriaid ddod o hyd i chi'n gyflym a hawdd ac yn caniatáu i chi gyfathrebu'n uniongyrchol â nhw i roi cyfoeth o wybodaeth iddynt am eich busnes.
- Rhowch flaenoriaeth i'r cyfryngau cymdeithasol wrth gynllunio. Sut allwch chi ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'ch atyniad a'r hyn sydd gennych i'w gynnig? Sut allwch chi annog eich cwsmeriaid i bostio ar y cyfryngau cymdeithasol? Sut gaiff eich atyniad ei frandio i sicrhau'r cyhoeddusrwydd mwyaf?
- Bydd cynnal eich cynydau'n fodd i ddylanwadu ar farn y cwsmer am eich busnes. Cymerwch amser i ddysgu a meithrin eich cynydau. Rhowch ystyriaeth ddifrifol i reoli plâu a chlefydau a chofiwch gysylltu â Tyfu Cymru am gefnogaeth i reoli plâu a chlefydau neu am gyngor cyffredinol am gynhyrchu cynydau.
- Manteisiwch ar y diwylliant adolygu ar-lein; gofynnwch am adborth, dysgwch oddi wrth sylwadau adeiladol a hyrwyddwch sylwadau cadarnhaol o fewn eich sianeli marchnata.

Cyhoeddodd Tyfu Cymru yn ddiweddar ei fod yn cychwyn tri rhwydwaith newydd (Pwmpenni, Ffrwythau Meddal a Ffrwythau Coed) i gefnogi tyfwyr masnachol Cymru drwy gynnig teithiau astudio, gweithdai, cyngor arbenigol, hyfforddiant a chyfleon rhwydweithio. Os oes diddordeb mewn ymuno â'r rhwydweithiau hyn, ebostiwch tyfucymru@lantra.co.uk neu ffoniwch **01982 552646**